

Parot oedd **Peredur**. Parot a oedd yn hoffi canu.

Bob bore, wrth fwyta ei frecwast, byddai **Peredur** yn canu “**Ffa-la-la, hw-la-la, tra-la-la**”.

Bob amser cinio, wrth lanhau ei blu, byddai **Peredur** yn canu “**Ffa-la-la, hw-la-la, tra-la-la**”.

Bob nos, wrth fwyta ei swper, byddai **Peredur** yn canu “**Ffa-la-la, hw-la-la, tra-la-la**”.

Ond un peth roedd **Peredur** y parot methu ei wneud oedd chwibanu.

Bob bore a nos byddai **Peredur** yn trio chwibanu ond byddai dim sŵn yn dod allan o’i geg. Dim ond gwynt a phoer. **Ych!**

Roedd pen-blwydd **Peredur** ychydig o ddiwrnodau i ffwrdd, ac roedd **Peredur** wir eisiau gallu chwibanu fel gweddill ei ffrindiau cyn ei ben-blwydd yn chwech oed.

Felly, dyma **Peredur** yn mynd ati i ymarfer.



Dechreuodd drwy holi ei **Fam** am help.

“Mae angen gwneud siâp **W** gyda dy geg,” eglurodd **Mam Peredur**.

Dyma **Peredur** yn gwneud siâp **W** gyda’i geg. Ond, ni chlywyd yr un smic o’i geg.



Holodd ei **Dad** am help.

“Mae angen gwneud siâp **U** gyda dy geg,” eglurodd **Dad Peredur**.

Dyma **Peredur** yn gwneud siâp **U** gyda’i geg. Ond unwaith eto, ni chlywyd yr un smic o’i geg.

Holodd ei **Fam-gu** am help.

“Mae angen gwneud siâp **Y** gyda dy geg,” eglurodd **Mam-gu Peredur**.

Dyma **Peredur** yn gwneud siâp **Y** gyda’i geg. Ond unwaith eto, ni chlywyd yr un smic o’i geg.

Holodd ei **Dad-cu** am help.

“Mae angen gwneud siâp **H** gyda dy geg,” eglurodd **Tad-cu Peredur**.

Dyma **Peredur** yn gwneud siâp **H** gyda’i geg. Ond unwaith eto, ni chlywyd yr un smic o’i geg.

Holodd ei **Nain** am help.

“Mae angen gwneud siâp **D** gyda dy geg,” eglurodd **Nain Peredur**.

Dyma **Peredur** yn gwneud siâp **D** gyda’i geg. Ond unwaith eto, ni chlywyd yr un smic o’i geg.

Holodd ei **Daid** am help.

"Mae angen gwneud siâp **O** gyda dy geg," eglurodd **Taid Peredur**.

Dyma **Peredur** yn gwneud siâp **O** gyda'i geg. Ond unwaith eto, ni chlywyd yr un smic o'i geg.



Ar ôl yr holl ymarfer, ac er holl ymdrechion **Peredur**, roedd **Peredur** dal methu chwibanu erbyn i'r diwrnod mawr gyrraedd. Roedd **Peredur** yn chwe blwydd oed ac roedd hi'n amser dathlu.



Roedd **Ffred** y **fflamingo**, **Manon** y **mwnci**, a **Begw** y **bochdew** wedi cael gwahoddiad i'r parti a roedd **Peredur** yn methu aros i fwyta'r holl **hufen iâ** a **jeli** gyda'i ffrindiau.

Ar ôl chwarae cuddio, dawnsio a bwyta'r **hufen iâ** a **jeli** roedd hi'n amser canu pen-blwydd hapus i **Peredur**. O flaen **Peredur** oedd **cacen fawr siocled** gyda chwe channwyll yn aros i'w cael eu chwythu.

“Pen-blwydd hapus i ti, pen-blwydd hapus i ti, pen-blwydd hapus i **Peredur**, pen-blwydd hapus i ti,” canodd **Ffred** y **fflamingo**, **Manon** y **mwnci**, a **Begw** y **bochdew** yn gyffrous.

Unwaith i'r canu peidio, caeodd **Peredur** ei lygaid yn dynn, dynn. Cymerodd anadl ddofn.

Dymunodd yn dawel y byddai'n gallu chwibanu unwaith iddo chwythu'r canhwyllau ar ei **gacen siocled**.

Chwythodd y chwe channwyll ar ei **gacen siocled** heb drafferth. Mewn un anadl trodd yr ystafell yn ddu a chlywyd y sŵn...

“wiiip-a-woooo!”

Roedd **Peredur** wedi llwyddo i chwythu'r canhwyllau.

Ond yn fwy na hynny, roedd **Peredur** wedi llwyddo i chwibanu!



Hip-hip-hwrê! Hip-hip-hwrê! Hip-hip-hwrê!

Roedd **Peredur** y parot yn gwenu led y pen.

Roedd ei ddymuniad pen-blwydd wedi dod yn wir! Roedd e wedi llwyddo chwythu'r holl ganhwyllau gydag un anadl a chwibanu ar yr un pryd! Roedd heddiw yn ddiwrnod arbennig iawn.



Chwibanodd **Peredur** i ddathlu ac ymunodd â phawb yn yr hwyl trwy chwibanu a chwerthin.



Gan Rhiannon Lloyd Williams a Sioned Medi Evans